TGAU Dylunio a Thechnoleg
Cynhyrchion Graffeg

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Bydd y cwrs yma yn eich helpu i ddysgu am y canlynol:

- Datblygu, Cynllunio a Chyfathrebu Syniadau;
- Dadansoddi Cynnyrch;
- Cynaladwyedd a Materion Deddfu;
- Dylunwyr eraill;
- Arferion Cynhyrchu Masnachol;
- Defnyddiau a Chydrannau;
- Offer, Cyfarpar a Gwneud;
- TGCh, CAD / CAM;
- Systemau a Phrosesau.

Sut fyddai'n dysgu?

Rhan sylfaenol o'r cwrs yw bod ymgeiswyr yn dylunio a gwneud cynhyrchion ac yna gwerthuso'u perfformiad. Cânt gyfle hefyd i brofi rholiau amrywiol a gysylltir â'r maes - cleient, dylunydd, gwneuthurwr, rheolwr, defnyddiwr ac yn y blaen. Bydd dwy awr o wersi yr wythnos.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

- Gwaith Cwrs (60%)

  Bydd y disgyblion yn cwblhau tasg a osodir gan CBAC.
  Bydd y dasg yn parhau am 30 awr o dan amodau asesiad wedi eu rheoli ble bydd yr ymgeiswyr yn dylunio, gwneud a gwerthuso'r dasg.

- Arholiad (40%)

  Bydd yr ymgeisydd yn sefyll papur arholiad dwy awr **ar ddiwedd Blwyddyn 11**.

Cofiwch!

- Nid yw'r maes llafur newydd yn caniatáu i chi ddewis tasg eich hun ym Mlwyddyn 11.
- Er mai pwnc ymarferol ydi Cynhyrchion Graffeg, mae llawer o waith ffolio a gosodir gwaith cartref yn rheolaidd.
- Awgrymir na ddylech ddewis Defnyddiau Gwrthiannol a Graffeg.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Miss Sioned Williams

Ysgol Eifionydd Porthmadog